POLISI AMDDIFFYN PLANT

YSGOL PENMACHNO

‘Tyfu a dysgu gyda’n gilydd.’

Swyddogion Diogelu Plant

Uwch Athro – Mrs Bethan Davies

Eilydd- Mrs Ffion Edwards

Llywodraethwr Dynodedig – Mr Eryl Owain

Rhif ffôn Cyfeirio – 01492 575955

Rhif Ffôn mewn Argyfwng- 01492 515777

Swyddog Lles Noella Roberts – 01492 575013

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae polisi amddiffyn plant effeithiol yn un sy’n darparu cyfeiriad clir i staff ac eraill ynghylch codau ymddygiad disgwyliedig wrth ymdrin â phryderon a chwynion. Mae’n gwneud yn glir ymrwymiad Ysgol Penmachno i ddatblygiad ymarfer da a threfn gadarn ynghyd ag hyfforddiant cyson fel y gellir ymdrin a materion amddiffyn plant mewn modd sensitif a phroffesiynol sy’n cefnogi’r plentyn.

1.2 Mae tair elfen i’r polisi :

- **atal** drwy addysgu, sicrhau awyrgylch ysgol cadarnhaol a’r cymorth bugeiliol sydd ar gael i’r disgyblion
- **amddiffyn** drwy sicrhau gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion neu amheuon o gam-drin ac adrodd arnynt a delio’n gadarn a theg â’r achosion hynny
- **cefnogi** disgyblion a all fod wedi cael eu cam-drin.

1.3 Mae polisiau eraill sydd yn berthnasol i amddiffyn plant gan gynnwys, yn arbennig, Polisi Gwrth-fwlio, Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth Gadarnhaol, Polisi Defnyddio Grym Rhesymol a Pholisi Chwythu’r Chwiban.

2. Atal

2.1 Mae Ysgol Penmachno’n cydnabod bod hunan-werth uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da rhwng dsgyblion ac oedolion y gallant ymddiried ynddynt yn helpu i ddiogelu disgyblion. Felly bydd yr ysgol yn

- sefydlu a chynnal ethos lle mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad gan deimlo’n hyderus y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif
- sicrhau bod y plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y medrant fynd atynt os ydynt yn poeni neu mewn trafferthion

- cynnwys yn y cwricwlwm a thrwy weithgareddau a chyfleoedd Addysg Bersonol a Chymdeithasol y sgiliau angenrheidiol i ddiogelu eu hunain rhag cael eu cam-drin ac i wybod at bwy i droi am gymorth
- cynnwys yn y cwricwlwm gyfleoedd i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd, yn arbennig o ran dangos parch, consyrn a gofal am eraill
- sicrhau ble bynnag y bo'n bosibl bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sefydlu perthynas weithio effeithiol gyda rhieni a chyd-weithwyr o'r asiantaethau perthnasol.
- Cydweithio gyda partneriaethau Nyrs ysgol Sian Edwards a Swyddog yr Heddlu PC Meirion Williams.

3. Gweithdrefnau Amddiffyn

3.1 Bydd Ysgol Penmachno yn dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (158/2015)* ac arweiniad yr Awdurdod Addysg Lleol *Trefn Amddiffyn Plant Conwy, 2010.*

3.2 Penodwyd y Pennaeth Uwch Athro - Bethan Davies, yn Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant.

Eilydd – Mrs Ffion Edwards

3.3 Penodwyd y Cadeirydd, Eryl Owain, yn Lywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant.

3.4 Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau bod y personau dynodedig hyn yn derbyn hyfforddiant pwrpasol a bod y llywodraethwr dynodedig yn cael y gwiriad DBS gofynnol.

3.5 Yn ogystal â'r gofyniad i gadeirydd y llywodraethwyr a'r llywodraethwyr dynodedig gael hyfforddiant ar ddiogelu ac amddiffyn plant, dylai pob llywodraethwr gael hyfforddiant ar ddiogelu ac amddiffyn plant er mwyn sicrhau lefel gyson a sylfaenol o ymwybyddiaeth. Mae cyrff llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant yn bodloni'r gofynion statudol, ac mae'n bwysig bod pob llywodraethwr yn gwybod beth i'w wneud os yw'n pryderu ynghylch plentyn

3.6 Mae'n bwysig bod y Swyddog Dynodedig yn cydgysylltu â'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant fel ei fod yn gallu adrodd i'r corff llywodraethu am faterion sy'n ymwneud â diogelu plant. Ni ddylid trafod achosion amddiffyn plant penodol mewn adroddiadau i'r corff llywodraethu, ond dylid, yn hytrach, adolygu'r polisïau a gweithdrefnau ar ddiogelu plant. Mae'n arfer da i'r llywodraethwr a enwebwyd a'r Swyddog Dynodedig gyflwyno'r adroddiad gyda'i gilydd.

3.7 Dylid sicrhau bod rhieni'n deall cyfrifoldeb sydd gan yr ysgol a'r staff dros amddiffyn plant trwy rannu gwybodaeth â hwy er enghraifft, mewn cyfarfodydd cynefino i rieni newydd, yn eu prosbectws ac ar eu gwefan a sicrhau bod y Polisi Amddiffyn Plant ar gael iddynt ei ddarllen.

3.8 Bydd y Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yn

- sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth
- trefnu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod yn gwybod
  - beth yw eu cyfrifoldeb personol
  - beth yw'r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt
  - bod angen bod yn effro i adnabod achosion posib o gam-drin
  - sut i gefnogi disgybl sy'n datgelu camdriniaeth
- sicrhau eu bod yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am roi gwybod am unrhyw bryderon yn syth pan fyddant yn codi.

- yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon plant (gan nodi dyddiad, y digwyddiad a pha gamau a gymerwyd), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol yn syth. Rhaid sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a than glo ac ar wahân i gofnodion disgyblion.
- hysbysu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol os
  - bydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol
  - bydd disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn yn absennol o'r ysgol heb eglurhâd am fwy na dau ddiwrnod (neu am ddiwrnod yn dilyn penwythnos).

3.9 Os oes gan aelodau staff bryderon am blentyn, dylent eu mynegi wrth y Swyddog Dynodedig. Y Swyddog Dynodedig fydd yn penderfynu fel arfer a ddylid atgyfeirio achos i'r gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'n bwysig nodi y gall unrhyw aelod staff gyfeirio ei bryderon at y gwasanaethau cymdeithasol neu at yr heddlu yn uniongyrchol.

3.10 Ni ddylai aelod o'r staff, na gwirfoddolwr, addo cyfrinachedd i blentyn ac ni ddylent addo i'r plentyn i gadw cyfrinach oherwydd pan fo pryder bod diogelwch plentyn yn y fantol bydd yn rhaid dweud am hyn wrth y Swyddog Dynodedig neu efallai'r awdurdodau priodol ac mae'n bosib y byddai angen ymchwiliad pellach. Gallai torri addewid o gyfrinachedd chwalu ymddiriedaeth plentyn mewn oedolion.

3.11 Rhennir unrhyw wybodaeth ymhlith staff ac eraill ar sail yr 'angen i wybod' yn unig – dweud dim ond yr hyn sy'n angenrheidiol a dim ond wrth y rhai hynny sydd angen gwybod. Rhaid i wybodaeth a gaiff ei rannu yn y modd hwn gael ei gadw'n gwbl gyfrinachol.

3.12 Bydd yr ysgol yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod pob gwiriad priodol wedi'i wneud ar staff newydd a gwirfoddolwyr sydd heb oruchwyliaeth a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau'r DBS yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Os bydd cyhuddiad yn erbyn unrhyw athro dynodedig felly dylai'r staff gysylltu gyda Mr Eryl Owain Cadeirydd Llywodraethwyr 01690 760 335.

3.13 Bydd yr ysgol yn rhoi canllawiau clir i staff dros dro a gwirfoddolwyr sy'n llenwi swyddi yn ystod absenoldeb byr ac a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ynghylch trefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau.

3.14 Bydd yr ysgol yn gweithredu Polisi Chwythu'r Chwiban pwrpasol a fydd yn sichrau bod yr holl staff yn deall y gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant, a theimlo eu bod yn gallu mynegi pryderon am arferion gwael neu anniogel, a bod pryderon o'r fath yn cael eu trafod mewn ffordd sensitif, effeithiol ac amserol yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru *Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion*.

3.15 Mae'r Swyddog Dynodedig yn gyfrifol am atgyfeirio honiadau lle mae amheuaeth o gam-drin i'r asiantaethau perthnasol er mwyn ymchwilio iddynt. Os yw'r rhain yn berthnasol i achosion lle mae amheuaeth o gam-drin neu honiadau o gamdrin yn erbyn staff, mae'r prosesau wedi'u nodi yn y Gweithdrefnau *Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol* (002/2013) a *Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill* (009/2014), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014.

3.16 Os bydd plant yn gadael y sefydliad, rhaid i'r Swyddog Dynodedig sicrhau bod copi o'u ffeil amddiffyn plant yn cael ei anfon i'r sefydliad newydd cyn gynted â phosibl a'i fod yn cael ei drosglwyddo ar wahân i brif ffeil y disgybl.

3.17 Yn ogystal â pholisi'r ysgol ar amddiffyn plant, mae polisïau eraill sy'n berthnasol o ran diogelu plant, a gall y Swyddog Dynodedig gyfrannu at fonitro effeithiolrwydd y polisïau eraill hyn i

sicrhau bod yr ysgol yn diogelu ei disgyblion. Ymysg y polisïau eraill sy'n berthnasol y mae rhai megis gofal personol, recriwtio a dethol, e-ddiogelwch, ymyrraeth gorfforol a chyfrinachedd.

3.18 Mae profiad, ac ymgynghori â phlant, yn dangos eu bod yn barod i siarad am eu pryderon a'u problemau â phobl y maent yn ymddiried ynddynt ac yn teimlo'n gyfforddus yn eu cwmni. Nid athrawon fydd y bobl hyn o reidrwydd. Felly mae'n bwysig bod yr holl staff a gwirfoddolwyr mewn ysgol neu sefydliad yn gwybod sut i ymateb yn sensitif i bryderon plant, pwy i droi atynt am gyngor yn eu cylch, a pha mor bwysig yw peidio â gwarantu cyfrinachedd llwyr.

4. Cefnogi Disgyblion a all fod wedi eu cam-drin

4.1 Mae Ysgol Penmachno'n cydnabod y gallai plant sydd mewn perygl, sy'n wynebu camdriniaeth neu sy'n dyst i drais gael eu heffeithio'n fawr gan hynny a bod felly angen ymdrin â hwy mewn modd sensitif ac ystyriol a bod angen cefnogaeth gyson arnynt.

4.2 Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, diogel a sicr ym mywydau plant sydd dan fygythiad. Er hynny, gall eu hymddygiad pan fyddant yn yr ysgol fod yn herfeiddiol ac anystywallt neu gallent fynd i'w cragen.

4.3 Bydd yr ysgol yn cefnogi'r disgyblion hyn drwy

- gynnwys yn y cwricwlwm a'r addysgu elfennau sy'n annog hunanwerth a hunan-gymhelliad
- sicrhau fod ethos yr ysgol yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel lle mae disgyblion yn gyfforddus i rannu eu pryderon ac i dderbyn cefnogaeth
- sicrhau bod polisi ymddygiad a gweithdrefnau rheoli ymddygiad yr ysgol yn rhoi pwyslais ar annog a chydnabod ymddygiad da tra'n ei gwneud yn glir bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol fel bod disgyblion sydd wedi eu cam-drin yn ymwybodol eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac nad ydynt i'w beio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd
- gadw cysylltiad agos, pan mae'n berthnasol, â rhieni ac ag asiantaethau eraill megis y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Lles Addysg, y Gwasanaeth Seicoleg ac ati.

4.4 Mae'r ysgol yn cydnabod mai plant gydag anableddau ac anawsterau ymddygiad yw'r rhai sydd, yn ystadegol, fwyaf agored i gael eu cam-drin. Mae angen i staff sy'n delio â phlant o'r fath fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin a rhoi'r gefnogaeth briodol iddynt.

Mabwysiadwyd . . . . . (dyddiad) . . . . . (Cadeirydd)

Adolygwyd . . . . . (dyddiad) . . . . . (Cadeirydd)

. . . . . (dyddiad) . . . . . (Cadeirydd)

. . . . . (dyddiad) . . . . . (Cadeirydd)

. . . . . (dyddiad) . . . . . (Cadeirydd)